# ‘Deffro Chwilfrydedd’: Integreiddio Dulliau sy’n seiliedig ar y Celfyddydau mewn Astudiaethau Plentyndod Cynnar a Hyfforddiant Ymarferwyr yng Nghymru

Gisselle Tur Porres a Prithpal Biant

CRYNODEB

Mae’r erthygl hon yn astudio proses ymchwil a arweinir gan addysgu er mwyn archwilio amrywiaeth drwy’r celfyddydau, proses sydd wedi’i hymwreiddio mewn modiwl Ymarfer Myfyriol Proffesiynol blwyddyn olaf fel rhan o raglen BA Astudiaethau Plentyndod Cynnar yng Nghymru. Mae’r profiad addysgegol wedi’i lywio gan athroniaeth Reggio Emilia ac mae’n cyd-fynd â’r Cwricwlwm i Gymru. Cynhaliwyd cyfres o weithdai seiliedig ar y celfyddydau wedi’u hwyluso gan artist a darlithydd. Trwy bortffolios myfyriol ac allbynnau creadigol, fe wnaeth myfyrwyr ymdrin â chwestiynau o hunaniaeth broffesiynol, cynhwysiant diwylliannol, a rôl creadigrwydd mewn addysgeg y blynyddoedd cynnar. Mae’r ymarfer hwn yn trafod safbwyntiau myfyrwyr ar integreiddio dulliau creadigol yn eu hymarfer addysg/ymchwil ac yn meithrin gallu i gysylltu â mynegiannau diwylliannol amrywiol. Cydsyniodd y cyfranogwyr i dynnu lluniau o’u gwaith a’u creadigaethau. Gwarchodwyd anhysbysrwydd eu myfyrdodau. Mae’r drafodaeth yn datgelu y gall ymyriadau o’r fath gryfhau ymarfer myfyriol, meddwl beirniadol, gall wella ymwybyddiaeth ddiwylliannol, a chefnogi’r broses o bontio o lwybr myfyriwr i lwybr proffesiynol. Trafodir goblygiadau i hyfforddiant ymarferwyr ac addysgeg ac ymchwil y blynyddoedd cynnar.

**Geiriau allweddol:** y celfyddydau, ymchwil a arweinir gan addysgu, amrywiaeth ddiwylliannol, astudiaethau plentyndod cynnar, addysg uwch, cymru.

---

*https://doi.org/10.16922/ffocws22*

## Cyflwyniad

Mae chwilfrydedd a chreadigrwydd yn aml yn cael eu henwi fel nodweddion sylfaenol mewn astudiaethau/addysg plentyndod cynnar. Fodd bynnag, os ydym yn gobeithio meithrin y rhinweddau hyn *mewn* plant, mae'n rhaid i ni eu deffro *ynddom* ni ein hunain yn gyntaf, fel addysgwyr/ymchwilwyr. Roedd yr egwyddor hon yn sail i broses ymchwil dan arweiniad addysgu gyda myfyrwyr blwyddyn olaf rhaglen BA Astudiaethau Plentyndod Cynnar yng Nghymru. Mae'r prosiect yn archwilio sut gall arferion sy'n seiliedig ar y celfyddydau wella myfyrio myfyrwyr, hyrwyddo addysgeg greadigol, a datblygu sgiliau ymchwil, y gallu i feddwl yn feirniadol, a sgiliau ymgysylltu â'r gymuned.

Yn y cyfnod hwn o bontio o astudiaeth i ymarfer, mae'r celfyddydau'n cynnig safbwynt unigryw ar gyfer myfyrio beirniadol, herio rhagdybiaethau a mynegi hunaniaeth broffesiynol gyda sensitifrwydd diwylliannol (Edwards, Gandini a Forman, 2011).

## Llenyddiaeth

Mae dysgu sy'n seiliedig ar y celfyddydau yng Nghymru ac yn rhyngwladol yn hyrwyddo dull addysg/ymchwil beirniadol-greadigol yn ogystal â datblygiad cyfannol, llesiant ac ymgysylltiad dyfnach ymhlith myfyrwyr, addysgwyr a chymunedau. Wrth ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru 2022; Addysg Cymru 2022), mae'r Celfyddydau Mynegiannol a chreadigrwydd yn cefnogi plant i feithrin gwybodaeth, datrys problemau a mynegi syniadau. Mae'r celfyddydau'n creu cyfleoedd i hwyluso profiadau sy'n cysylltu â mynegiannau diwylliannol ac yn dathlu amrywiaeth (Llywodraeth Cymru 2020). Mae'r cysylltiad hwn ag amrywiaeth ddiwylliannol yn meithrin ymdeimlad o berthyn sy'n annog dysgu trwy brofiadau creadigol ac mae'n hyrwyddo ymdeimlad o "Gynefin" - cysyniad Cymraeg sy'n cyfeirio at ymdeimlad o berthyn a chysylltiad â lle, diwylliant a hunaniaeth (Addysg Cymru, 2022). Mae Adams (2024) yn nodi bod angen cael profiad o Gynefin er mwyn ei ddeall (t. 2). Mae'r prosiect hwn wedi'i wreiddio mewn lle ac amrywiaeth a rennir, ac mae'n defnyddio'r celfyddydau i gysylltu profiad personol ag ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Mae Cynefin yn ymgorffori hunaniaeth Cymru trwy ei gysylltiadau diwylliannol,

cymdeithasol a hanesyddol dwfn, gan fyfyrio ar ymdeimlad dwys o berthyn heb freinio dehongliadau hierarchaidd neu ddehongliadau sy'n seiliedig ar darddiad. Fel y noda Adams, mae'n adlewyrchu gwreiddiau yn hytrach na llwybrau at ddinasyddiaeth Gymreig (t. 2), gan flaenoriaethu safle a pharhad dros ymlyniad gweithdrefnol.

Yng Nghymru, mae'r rhaglen Addysg sy'n Gyfoethog o Gelfyddydau (Cyngor Celfyddydau Cymru, dim dyddiad) wedi hyrwyddo addysg sydd wedi'i hintegreiddio yn y celfyddydau sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, gan hyrwyddo cydweithredu rhwng athrawon ac ymarferwyr y celfyddydau. Gyda chefnogaeth buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn datblygiad proffesiynol (Addysg Cymru, 2022), mae'r ymdrechion addysg/ymchwil hyn yn parhau i fod yn gyfyngedig yng nghyd-destun y blynyddoedd cynnar. Eto, mae myfyrwyr plentyndod cynnar israddedig yn rym pwerus ar gyfer ymwreiddio dulliau creadigol, beirniadol mewn addysg ac ymchwil o'r cychwyn cyntaf, gydag effaith ar ymarfer.

### *Y Dull Reggio Emilia*

Mae egwyddorion addysgeg y profiad wedi'u hysbrydoli gan athroniaeth Reggio Emilia sy'n gosod plant fel crewyr ystyr cymwys a chwilfrydig sy'n gallu mynegi dealltwriaeth trwy sawl "iaith" - esthetig, cinesthetig, llafar, a gweledol (Edwards, Gandini a Forman, 2011). Mae addysgeg sydd wedi'i hysbrydoli gan Reggio yn integreiddio ymarfer creadigol ym mhob agwedd ar ddysgu, gyda chefnogaeth *atelier* (stiwdio greadigol) ac arweiniad *atelierista* (artist/addysgwr). Mae'r dull addysgegol hwn yn gwahodd addysgwyr ac *atelieristas* (artistiaid sy'n gweithio ochr yn ochr ag addysgwyr) i ddylunio amgylcheddau dysgu sy'n ysgogi creadigrwydd, deialog a myfyrio beirniadol (Vecchi, 2013; Tur Porres, 2020).

Mae'r defnydd o *bryfociadau artistig*, deunyddiau ac ysgogiadau sydd â'r nod o ennyn ymholi a dehongli, yn ddulliau pwerus ar gyfer creu ystyr, gan gefnogi nid yn unig dysgu plant ond galluoedd myfyrio ac ymchwil ymarferwyr hefyd. Fel y mae Harland (2016) yn awgrymu, gall ymchwil a arweinir gan addysgu ddarparu gofod ar gyfer ymholiad a thwf proffesiynol, gan bontio damcaniaeth academaidd â chymhwysiad ymarferol. Mae'r fframwaith hwn yn gwahodd myfyrio beirniadol parhaus a chyd-lunio gwybodaeth mewn modd perthynol trwy'r celfyddydau (Vecchi, 2013).

## Dulliau

Defnyddiodd y broses ymchwil hon a arweinir gan addysgu weithgareddau creadigol sy'n seiliedig ar y celfyddydau i archwilio sut gellir dehongli'r Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2022) ym maes dysgu israddedig. Mae'n cynnig mewnwelediad i arferion dysgu-addysgu addysg uwch trwy archwilio dulliau creadigol sy'n seiliedig ar ymchwil o fewn carfan blwyddyn olaf, gan gefnogi ymgysylltiad beirniadol myfyrwyr ag amrywiaeth ddiwylliannol a dynol.

Fe wnaeth dull ansoddol dan arweiniad addysgu a oedd wedi'i lywio gan athroniaeth Reggio Emilia (Malaguzzi, 2021; Chicken et al., 2024) siapio dyluniad y broses addysgegol/ymchwil hon. Roedd y dulliau'n canolbwyntio ar gynllunio a hwyluso ymyriadau artistig (Clark, 2017), lle ymgysylltodd myfyrwyr ag artist gwadd a darlithydd er mwyn profi prosesau sy'n seiliedig ar y celfyddydau tebyg i'r rhai a ddefnyddir gyda phlant ifanc. Cyflwynodd y gweithgareddau hanesion menywod "cudd/anweledig" o gefndiroedd diwylliannol ac ethnig amrywiol yng Nghymru, ochr yn ochr â chyfleoedd i arbrofi gyda thechnegau paentio a hunanbortread. Trwy'r dilyniant creadigol hwn, datblygodd myfyrwyr eu hymatebion artistig eu hunain a myfyrio ar sut gall arferion sy'n seiliedig ar y celfyddydau gefnogi cyfathrebu ac ymholi gyda phlant ifanc. Arweiniodd y strwythur addysgegol hwn yn naturiol at yr ystyriaethau moesegol sy'n sail i ddimensiwn ymchwil a arweinir gan addysgu y gwaith dan sylw.

### *Ystyriaethau moesegol*

Roedd ymarfer moesegol wedi'i seilio ar draddodiadau cymunedol eu naws a dad-drefedigaethu sy'n gwneud atebolrwydd perthynol yn brif ffocws (Smith, 1999; Paris a Winn, 2014). Cafodd gweithdai eu gosod o fewn fframwaith addysgegol myfyriol/creadigol lle'r oedd myfyrwyr yn archwilio hunaniaethau trwy ymyriadau sy'n seiliedig ar y celfyddydau. Yn unol â methodolegau dad-drefedigaethu, defnyddiwyd proses cydsyniad ar lafar yn lle cydsyniad ysgrifenedig ffurfiol. Roedd y dull hwn yn cefnogi amgylchedd moesegol perthynol, grym isel lle gallai myfyrwyr wneud penderfyniadau seiliedig ar wybodaeth yn wirfoddol trwy sgyrsiau parhaus yn hytrach na gwaith papur trafodol (Everley, 2021). Cydsyniodd myfyrwyr i'r defnydd o fyfyrdodau a ffotograffau dienw o'u gwaith creadigol at ddibenion addysgol ac ymchwil, yn

unol â chanllawiau'r sector ar ymarfer moesegol mewn ymchwil addysgegol (BERA, 2018). Roedd cyfranogiad yn gwbl wirfoddol, ac atgoffwyd myfyrwyr trwy gydol y broses y gallent dynnu eu cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg heb ganlyniadau.

Roedd y prosiect yn ymgorffori delweddau archifol sydd ar gael i'r cyhoedd o fenywod o gefndiroedd diwylliannol amrywiol yng Nghymru. Defnyddiwyd y rhain fel awgrymiadau creadigol yn unol â'u caniatâd. Roedd atgyrchedd moesegol wedi'i ymwreiddio drwy'r broses gyfan, gan gynnwys sylw i ddynameg pŵer a'r angen i greu amgylchedd dysgu a oedd yn gefnogol ac yn gynhyrchiol yn feirniadol. Felly, mae'r prosiect yn integreiddio egwyddorion dad-drefedigaethu, moeseg berthynol, a dulliau sy'n seiliedig ar y celfyddydau i gefnogi datblygiad myfyrwyr fel ymarferwyr myfyriol/ymchwilwyr newydd, gan sicrhau hefyd bod eu galluedd a'u hunaniaethau diwylliannol yn parhau i fod yn ganolog i'r broses ymchwil.

*Cwestiwn sylfaenol:*

*Beth yw safbwyntiau myfyrwyr israddedig astudiaethau plentyndod cynnar ar integreiddio'r celfyddydau yn eu profiad dysgu-addysgu?*

*Gweithredu'r prosiect:*

Roedd y gweithdai artistig a myfyriol yn rhan o fodiwl Ymarfer Myfyriol Proffesiynol ac fe'u cyflwynwyd i garfan o fyfyrwyr BA Astudiaethau Plentyndod Cynnar (2022-2023). Cafodd yr ymchwil dan arweiniad addysgu hon ei hymwreiddio ar draws tri gweithdy dilyniannol, a gynigiwyd dros sawl wythnos cyn i fyfyrwyr ddechrau eu lleoliadau mewn lleoliadau plentyndod cynnar.

Cafodd gweithdai eu cyd-gynllunio a'u cyd-hwyluso gan y darlithydd a'r artist gwadd. Defnyddiwyd llyfrau braslunio myfyriol, arteffactau gweledol, a myfyrdodau ysgrifenedig fel ffynonellau data craidd (Blaisdell et.al. 2019; Clark 2017).

***Gweithdy 1: Arlunio/Profiad a Rennir***

Nod y gweithdy cychwynnol oedd trochi cyfranogwyr yn y prosesau o greu celf trwy brofiad, o safbwynt ymgysylltu artistig yn ystod plentyndod. Wedi'i hwyluso'n gydweithredol gan yr artist gwadd a'r darlithydd, nod y sesiwn oedd darparu

cyflwyniad amlsynhwyraidd i fynegiant artistig gan bwysleisio potensial cyfathrebu'r celfyddydau hefyd.

Un o amcanion craidd y gweithdy oedd efelychu'r ffyrdd y mae plant yn ymgysylltu â'r celfyddydau ac yn eu profi, a thrwy hynny hyrwyddo dealltwriaeth empathig a myfyriol ymhlith cyfranogwyr (Blaisdell et al. 2019). Trwy weithgareddau ymarferol, gan gynnwys arbrofi gydag amrywiaeth o ddeunyddiau celf, anogwyd cyfranogwyr i archwilio dimensiynau cyffyrddol ac emosiynol darlunio. Roedd hyn yn cynnwys ymarfer â ffocws ar dechnegau hunanbortread fel modd o hunan-fyfyrio a datblygu sgiliau artistig.

Yn ogystal ag ymgysylltu ymarferol, roedd y gweithdy yn llwyfan sylfaenol ar gyfer ymholiad deallusol. Cafodd myfyrwyr eu hannog i gychwyn ymchwil yn ymwneud â chynrychiolaeth menywod amrywiol yn ddiwylliannol/ethnig sydd wedi gwneud cyfraniadau sylweddol yng Nghymru ar draws gwahanol feysydd. Bwriad yr elfen hon oedd paratoi myfyrwyr ar gyfer sesiwn ddilynol ac annog archwiliad beirniadol o hunaniaeth, cynrychiolaeth a naratifau diwylliannol yn y celfyddydau. Pwysleisiodd y gweithdy y rhyng-gysylltiad rhwng mynegiant personol, dealltwriaeth addysgegol, ac ymwybyddiaeth gymdeithasol-ddiwylliannol yn y celfyddydau/addysg.

### *Gweithdy 2: Hunaniaeth Ddiwylliannol/Myfyrio Artistig*

Ehangodd yr ail weithdy ar y sylfeini a sefydlwyd yng Ngweithdy 1, gyda phwyslais parhaus ar hunanfynegiant, ymwybyddiaeth ddiwylliannol, a rôl y celfyddydau mewn addysg/ymchwil. Mae'r sesiwn hon yn ennyn diddordeb cyfranogwyr mewn archwiliad dyfnach o hunaniaeth trwy ymholiad artistig a hanesyddol, gan ganolbwyntio ar fenywod "anweledig" o gefndiroedd diwylliannol/ethnig amrywiol yn hanes Cymru. Roedd y cysyniad Cymraeg o Cynefin, sy'n dynodi ymdeimlad o berthyn a gwreiddiau yn eich amgylchedd, yn fframwaith arweiniol ar gyfer nodau myfyriol y gweithdy (Llywodraeth Cymru, 2021)

Cyflwynwyd y cyfranogwyr i naratifau bywgraffyddol menywod Cymreig nad ydynt wedi'u cynrychioli'n hanesyddol, y mae eu cyfraniadau yn cwmpasu meysydd diwylliannol a phroffesiynol amrywiol. Bwriad yr ymgysylltiad hanesyddol hwn oedd meithrin dealltwriaeth feirniadol o gynhwysiant, gweledEdd a chof diwylliannol. Mewn ymateb, creodd cyfranogwyr hunanbortreadau a oedd nid yn unig yn ymgorffori technegau paentio a ddatblygwyd yn y gweithdy cyntaf, ond a oedd yn

**Ffigur 1**



**Ffigur 2**



**Ffigur 3**



**Ffigur 4**




**Ffigur 5**



integreiddio elfennau o'u hunaniaethau diwylliannol eu hunain hefyd a'u hymdeimlad o Gynefin.

Gwnaeth y sesiwn ymgorffori arferion myfyriol strwythuredig hefyd, gan gynnwys trafodaethau grŵp ac ysgrifennu naratif unigol (Gjessing, Kristensen a Risør, 2023). Roedd y myfyrdodau hyn yn annog cyfranogwyr i ystyried potensial y celfyddydau yn ystod plentyndod cynnar yng nghyswllt cyfathrebu a datblygiad. Rhoddwyd pwyslais ar y defnydd o'r celfyddydau i gefnogi mynegiant emosiynol, ffurfio hunaniaeth a datblygiad cyfannol ymhlith plant (Blaisdell et al. 2019).

Ffigurau 1-5: Darlunio a chysylltu â straeon menywod o gefndiroedd diwylliannol amrywiol yng Nghymru:

***Gweithdy 3: Hunanbortreadau/Hunaniaeth Broffesiynol***

Fe wnaeth y sesiwn olaf yn y gyfres o weithdai ddwyn ynghyd y llinynnau thematig ac ymarfer drwy brofiad a ddatblygwyd ar draws y gweithdai blaenorol. Gyda ffocws ar syntheseiddio naratifau personol a phroffesiynol trwy hunanfynegiant gweledol (Haeyen, Heres a Pol, 2024; Westerhof, Alea a Bluck, 2020), roedd y sesiwn hon yn gwahodd cyfranogwyr i fyfyrio'n feirniadol ar rôl y celfyddydau yn y blynyddoedd cynnar ac ar eu hunaniaethau esblygol fel addysgwyr/ymchwilwyr ac unigolion.

Roedd creu hunanbortreadau yn gweithredu nid yn unig fel mynegiant esthetig ond hefyd fel arteffactau myfyriol yn ymgorffori dealltwriaeth cyfranogwyr o'r hunan, lle a phwrpas proffesiynol. Roedd y gweithdy'n annog arbrofi, gan wahodd myfyrwyr i ystyried sut gallai gweadau, ffurfiau a delweddau penodol gynrychioli agweddau ar eu hunaniaethau diwylliannol, eu profiadau a'u dyheadau yng nghyd-destun ymarfer/ymchwil plentyndod cynnar.

Roedd y sesiwn hon yn ofod myfyriol hefyd lle bu cyfranogwyr ail-ymweld â rôl addysgegol y celfyddydau. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar sut gall arferion creadigol gefnogi datblygiad cyfannol plant a gweithredu fel pont gyfathrebu rhwng addysgwyr-plant mewn amgylcheddau sy'n gwerthfawrogi llesiant, cynhwysiant ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Daeth y gweithdy i ben drwy guradu ymarfer terfynol ac arddangosfa grŵp, gan gyflwyno hunanbortreadau cyfranogwyr ochr yn ochr â myfyrdodau ysgrifenedig. Roedd yr arddangosfa hon yn offeryn addysgegol ac yn arddangosfa fyfyriol gyda'r nod o sbarduno deialog ar botensial trawsnewidiol ymarfer creadigol ac ymchwil

**Ffigur 6: Enghraifft o hunanbortreadau 'cysylltu â chi eich hun ac eraill'**



mewn addysg. Roedd trafodaeth grŵp yn cyd-fynd â'r arddangosfa, gan hwyluso ymgysylltiad beirniadol â goblygiadau'r celfyddydau ar gyfer hunaniaeth broffesiynol, addysgeg y blynyddoedd cynnar ac ymchwil.

Daeth y sesiwn i ben gyda chyfranogwyr yn asesu eu profiadau unigol a chyfunol ar hyd y gyfres o weithdai. Rhoddwyd pwyslais ar sut gall dulliau sy'n seiliedig ar y celfyddydau lywio nid yn unig arferion addysg/ymchwil ond hefyd ddealltwriaeth ehangach o hunaniaeth addysgwyr, addysgeg berthynol ac ymgysylltiad diwylliannol.

## Canlyniadau a thrafodaeth

Gwnaeth y gyfres hon o weithdai ddarparu proses ymchwil arloesol dan arweiniad athrawon, er mwyn archwilio'n feirniadol sut gall dulliau sy'n seiliedig ar y celfyddydau wella trawsnewidiad personol ac addysgegol ymhlith myfyrwyr israddedig plentyndod cynnar. Gwasanaethodd fel fframwaith ymarfer trwy brofiad lle gallai cyfranogwyr ymgysylltu â'r broses greadigol nid yn unig fel addysgwyr y dyfodol ond fel ymchwilwyr myfyriol sy'n gallu ymchwilio'n feirniadol i naratifau diwylliannol, traddodiadau addysgegol a'u hunaniaethau eu hunain (Haeyen, Heres a Pol, 2024; Clark 2017). Cyfrannodd y gweithdai at archwilio dulliau newydd sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig ar Cynefin (Adams, 2024; Chapman et al., 2023). Trwy ymgysylltu â hunanbortreadau, adrodd straeon ac ymholiad hanesyddol, gwahoddwyd myfyrwyr i ystyried dimensiynau diwylliannol ac emosiynol gweithio gyda phlant mewn ffyrdd sy'n cadarnhau hunaniaeth, amrywiaeth a dynoliaeth a rennir (Haeyen, Heres a Pol, 2024; Blaisdell et al., 2019; Clark, 2017).

### *Creadigrwydd a hyder proffesiynol*

Datgelodd dadansoddiad thematig o fyfyrdodau myfyrwyr adfywiad o greadigrwydd a hyder proffesiynol (Braun a Clarke, 2006). Mynegodd myfyrwyr ymdeimlad o'r newydd o chwarëusrwydd a pharodrwydd i arbrofi gyda dulliau newydd. Gwnaeth y weithred o greu celf feithrin nid yn unig gwerthfawrogiad esthetig ond mewnwelediad gwybyddol ac emosiynol hefyd. Dywedodd un myfyriwr 'Cefais fy ysbrydoli i roi cynnig ar bethau newydd - nid yn unig mewn celf, ond yn y ffordd rydw i'n cynllunio gweithgareddau gyda phlant', gan awgrymu bod strategaethau creadigol wedi'u trosi'n uniongyrchol o'r gweithdy i ymarfer addysgol. Dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod wedi addasu gweithgareddau hunanbortread y gweithdy gyda phlant: 'Y bore 'ma, fe wnes i greu gorsafoedd gwaith fel bod y plant yn gallu creu eu hunanbortreadau eu hunain. Roedden nhw wrth eu boddau'. Arsylwodd un arall 'Er bod plant yn wahanol, maen nhw'n dal i fod yn perthyn i gymuned', gan ddangos effaith y gweithdy ar ddealltwriaeth myfyrwyr o gynhwysiant a pherthyn yn ymarferol. Ychwanegodd myfyriwr arall: 'Mae celf wedi gwneud i mi fyfyrio'n wahanol. Roedd yn syndod i mi faint a ddaeth allan trwy arlunio', gan dynnu sylw at y dyfnder myfyriol a gyflawnwyd trwy fynegiant gweledol. Mae'r naratifau hyn yn ymwneud ag astudiaethau a oedd yn trafod sut mae celfyddydau yn gwella meddwl beirniadol, creadigrwydd a llesiant (Alsaqabi ac Alazmi, 2024). Mae Mastandrea, Fagioli a Biasi (2019) hefyd yn archwilio sut gall profiadau esthetig, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'r celfyddydau gweledol, ddylanwadu'n gadarnhaol ar hwyliau, lleihau straen a hyrwyddo llesiant cyffredinol.

### *Hunaniaethau sy'n amrywiol yn ddiwylliannol*

Roedd ail thema yn ymwneud â naratifau cudd neu wedi'u hymyleiddio, yn enwedig hanesion menywod o gefndiroedd diwylliannol amrywiol yng Nghymru. Ysgogodd hyn fyfyrio beirniadol ar gynrychiolaeth, hunaniaeth a chynhwysiant mewn cyd-destunau plentyndod cynnar. Cwestiynodd y myfyrwyr hanes pwy sy'n cael ei rannu mewn meithrinfeydd ac roeddent yn gweld bylchau yn eu gwybodaeth eu hunain: 'Sylweddolais cyn lleied roeddwn i'n ei wybod am Gymru y tu allan i'm profiad i fy hun.' Mae myfyrdodau o'r fath yn tynnu sylw at bwysigrwydd integreiddio lluosogrwydd diwylliannol a dyfnder hanesyddol mewn addysgeg y blynyddoedd cynnar, sy'n gysylltiedig â'r pwyslais ar fod yn wrth-hiliol a dad-drefedigaethu. Mae

ymchwil Donahaye (2012) yn tynnu sylw at bwysigrwydd adfer naratifau sydd wedi'u cuddio, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â hanes llenyddol/diwylliannol Cymreig ac Iddewig, er mwyn ehangu cof y cyhoedd a dealltwriaeth ddiwylliannol. Yn yr un modd, mae'r flodeugerdd Seventy Years of Struggle and Achievement (Lavine, Upadhyaya a Weedon, 2021) yn cynnig disgrifiadau person cyntaf sy'n tynnu sylw at wydnwch a chyfraniadau menywod ethnig leiafrifol, gan ei gwneud yn adnodd gwerthfawr ar gyfer arferion addysgol cynhwysol. Mae'r ymdrechion hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymwreiddio hanesion pobl ethnig leiafrifol yn y cwricwlwm a hyrwyddo addysg wrth-hiliol (Llywodraeth Cymru, 2021).

***Goblygiadau ar gyfer Addysg Uwch a Pholisi***

Mae dadansoddiad rhagarweiniol yn tynnu sylw at werth ymwreiddio dulliau sy'n seiliedig ar y celfyddydau a dulliau myfyriol yn y cwricwlwm Astudiaethau Plentyndod Cynnar. Mae meithrin gallu ymhlith addysgwyr/ymchwilwyr cyn gwasanaethu i ymgysylltu'n feirniadol â hunaniaeth, diwylliant ac addysgeg trwy fynegiant creadigol yn rhywbeth sylfaenol ar gyfer ymarferwyr/ymchwilwyr myfyriol. Mae methodolegau sy'n seiliedig ar y celfyddydau yn cefnogi mewnwelediad personol dwfn ac yn helpu myfyrwyr i fynegi hunaniaethau proffesiynol datblygol mewn ffyrdd y gall addysgeg draddodiadol eu hanwybyddu (White and Lemieux 2015). Mae'r dulliau hyn yn cefnogi nodau addysgol ehangach sy'n pwysleisio datblygiad cyfannol, dysgu cyfranogol a meithrin chwilfrydedd ac empathi (McDermott 2002). Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at yr angen am fframweithiau polisi a rhaglenni academaidd i gefnogi addysgeg ryngddisgyblaethol sy'n ymgorffori'r celfyddydau sy'n paratoi addysgwyr i lywio tirweddau addysgol amlddiwylliannol yn feirniadol ac yn greadigol (Pool, Dittrich a Pool, 2011).

## Casgliad

Mae'r astudiaeth hon yn dangos gwerth integreiddio arferion myfyriol sy'n seiliedig ar y celfyddydau mewn astudiaethau/ymchwil plentyndod cynnar. Roedd y gweithdai wedi galluogi myfyrwyr i archwilio dulliau creadigol a chryfhau hunaniaeth broffesiynol, gallu o ran ymchwil a hyder addysgol. Roedd ymgysylltu â hanesion

'cudd' menywod yng Nghymru wedi annog myfyrio beirniadol ar naratifau diwylliannol, tra bod hunanbortreadau wedi dod i'r amlwg fel offeryn trawsnewidiol ar gyfer mynegi hunaniaeth a bwriad fel addysgwyr/ymchwilwyr. Adroddodd myfyrwyr ddealltwriaeth ddyfnach o gynhwysiant, creadigrwydd a pherthyn/Cynefin. Un cyfyngiad allweddol oedd amseru, gan fod myfyrwyr yn cydbwyso ysgrifennu ymchwil a pharatoi ar gyfer lleoliad ymarfer, gan effeithio ar bresenoldeb. Serch hynny, disgrifiodd y cyfranogwyr y sesiynau fel 'gofod braf i ymlacio' a rhoi'r ffocws unwaith eto ar werthoedd proffesiynol craidd. Byddai ymyriadau yn y dyfodol yn elwa ar gael eu hintegreiddio'n gynharach mewn rhaglenni, a gall meithrin gallu yn y sector yn ehangach gryfhau'r defnydd o addysgeg sy'n seiliedig ar y celfyddydau ac addysgeg myfyriol. Gallai rhagor o ymchwil archwilio sut mae dulliau creadigol yn y Cwricwlwm i Gymru yn hyrwyddo chwilfrydedd a myfyrio ymhlith addysgwyr/ymchwilwyr, gan gyfoethogi disgwrs ar arloesedd addysgegol mewn astudiaethau plentyndod cynnar.

## Cydnabyddiaeth

Hoffai awduron y papur hwn ddiolch i fyfyrwyr israddedig y BA Astudiaethau Plentyndod Cynnar a'r tîm Cymorth i Fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe am eu cyfranogiad ac am wneud y prosiect hwn yn bosibl.

## Cyfeiriadau

Adams, D. (2024). Exploring the curriculum potential of the Welsh word cynefin by examining its new materialist and contemplative pedagogical resonances. *Journal of Contemplative and Holistic Education*, 2(2). DOI: https://doi.org/10.25035/jche.02.02.01

Addysg Cymru (Ionawr 2022). *Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin o ariennir nas cynhelir.* Llywodraeth Cymru.

Alsaqabi, B. K. ac Alazmi, K. A. (2024). The Crucial Role Of Art Education In Cognitive, Emotional Development, And Academic Success Among Students: A Comprehensive Review. *IOSR Journal Of Humanities And Social Science (IOSR-JHSS) 29*, 1(6): 44–8.

Cyngor Celfyddydau Cymru (dim dyddiad). Addysg sy'n gyfoethog o gelfyddydau. Gw. https://arts.wales/cy/effaith-ein-gwaith/sut-yr-ydym-yn-helpu-creu-celf/dysgu-creadigol-drwyr-celfyddydau (cyrchwyd 03 Mehefin 2026).

Blaisdell, C., Arnott, L., Wall, K. a Robinson, C. (2018). Look Who's Talking: Using creative, playful arts-based methods in research with young children. *Journal of Early Childhood Research*, 17(1), t. 1476718X1880881. DOI: https://doi.org/10.1177/1476718x18808816

Braun, V. a Clarke, V. (2006). Using thematic analysis in psychology. *Qualitative Research in Psychology*, 3(2), tt. 77–101. DOI: https://doi.org/10.1191/1478088706qp063oa

British Education Research Association (BERA) (2018). Ethical Guidelines for Educational Research, 4ydd argraffiad (2018). Gw. https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018-online

Chapman, S., Ellis, R., Beauchamp, G. K., L. Kathleen Sheriff, Stacey, D., Waters-Davies, J., A. Olufemi Lewis, Jones, C., Griffiths, M., Chapman, S., Wallis, R., Sheen, E., Crick, T., Lewis, H., French, G. ac Atherton, S. (2023). 'My picture is not in Wales': pupils' perceptions of cynefin (Belonging) in primary school curriculum development in Wales. *Education 3-13*, 51(8), tt. 1214–28. DOI: https://doi.org/10.1080/03004279.2023.2229861

Chicken, S., Tur Porres, G., Mannay, D., Parnell, J. a Tyrie, J. (2025). Questioning 'voice' and silence: Exploring creative and participatory approaches to researching with children through a Reggio Emilian lens. *Qualitative Research*, 25(1), 3–20. DOI: https://doi.org/10.1177/14687941241234299

Clark, A. (2017). *Listening to young Children: a guide to understanding and using the Mosaic approach*. 3ydd argraffiad. London: Jessica Kingsley Publishers.

Donahaye, J. (2012). *Whose People? Wales, Israel, Palestine*. Wales University Press.

Edwards, C., Gandini, L. a Forman, G. (goln) (2011). *The Hundred Languages of Children: The Reggio Emilia Experience in Transformation*. 3ydd argraffiad. Santa Barbara, California: Praeger Press.

Everley, S. (2021). *Using Creative Arts-Based Research Methods in School Settings*. Routledge.

Gjessing, S., Kristensen, J. K., a Risør, T. (2023). Storytelling in Focus Group Discussions: A Narrative Approach to Phenomena With Temporal Dimensions in Medical Education Research. *International Journal of Qualitative Methods*, 22. DOI: https://doi.org/10.1177/16094069231215230

Haeyen, S., Heres, H. a Pol, S. (2024). Making meaning of one's own life story in words and images: A narrative case report of personal recovery from personality disorder through the interventions 'An Empowering Story' and art therapy. *Journal of clinical psychology*, 80(8). DOI: https://doi.org/10.1002/jclp.23690

Harland, T. (2016). Teaching to enhance research. *Higher Education Research & Development*, 35(3), 461–72.

Lavine, K., Upadhyaya, M. a Weedon, C. (2021). *Seventy Years of Struggle and Achievement: Life Stories of Ethnic Minority Women in Wales*. Cardigan: Parthian Books.

Llywodraeth Cymru (2022). Cwricwlwm i Gymru: Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Gw. https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm (cyrchwyd 03 Mehefin 2026).

Llywodraeth Cymru (2021). Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd Adroddiad Terfynol. Gw. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-cwricwlwm-newydd-adroddiad-terfynol.pdf (cyrchwyd 03 Mehefin 2026).

Llywodraeth Cymru (2020). Themâu trawsgwricwlaidd ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm. Gw. https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/themau-trawsgwricwlaidd-ar-gyfer-cynllunio-eich-cwricwlwm (cyrchwyd 03 Mehefin 2026).

Malaguzzi, L. (2021). *La Educación Infantil En Reggio Emilia*. [S.l.]: EDICIONES OCTAEDRO.

Mastandrea, S., Fagioli, S. a Biasi, V. (2019). Art and Psychological Well-Being: Linking the Brain to the Aesthetic Emotion. *Frontiers in Psychology*, 10(739). DOI: https://doi.org/10.3389/fpsyg.2019.00739.

McDermott, M. (2002). Collaging Preservice Teacher Identity. *Teacher Education Quarterly*, 29(4), tt. 53–68. DOI: https://doi.org/10.2307/23478451.

Paris, D. a Winn, M. T. (2014). Humanizing Research: Decolonizing Qualitative Inquiry with Youth and Communities. DOI: https://doi.org/10.4135/9781544329611

Pool, J., Dittrich, C. a Pool, K. (2011). Arts Integration in Teacher Preparation: Teaching the Teachers. *Journal for Learning through the Arts*, 7(1). DOI: https://doi.org/10.21977/d97110004

Smith, L. T. (1999). *Decolonizing methodologies: Research and indigenous peoples*. Llundain: Zed Books.

Tur Porres, G. (2020). Designing provocative education environments for teacher training emancipatory practices. Yn J. Madalinska-Michalak (gol.), *Studies on Quality Teachers and Quality Initial Teacher Education* (tt. 220–41). Foundation for the Development of the Education System.

Vecchi, V. (2013). *Arte y creatividad en Reggio Emilia*. Ediciones Morata.

Westerhof, G. J., Alea, N., a Bluck, S. (2020). Narrative and identity: The importance of our personal past in later life. Yn: A. K. Thomas, A. Gutchess (goln), *The Cambridge handbook of cognitive aging: A life course perspective*. Cambridge University Press, tt. 383–99.

White, B., a Lemieux, A. (2015). Reflecting selves: Pre-service teacher identity development explored through material culture. *LEARNing Landscapes*, 9(1), Rhifyn Arbennig 'Professional Development in Education: Pushing the Boundaries of Possibility', 267–83.